Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Machynlleth

**Yr Asgell, Campws Uwchradd**
**Ysgol Bro Hyddgen**
**Fford Aberystwyth**
**SY20 8DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Machynlleth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Machynlleth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Tamsin Davies |
| Person â gofal | Caryl Edwards |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 16 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.45 -15.45 Llun – Iau<br>9.00 – 15.00 Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydyw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/10/2022 |
| Roedd y gwasanaeth wedi ail-gofrestri fel Sefydliad Corfforedig Elusennol yn Ebrill 2020. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu’r defnydd o asesiadau ac arsylwadau ymhellach er mwyn gallu manteisio i’r eithaf ar ddiddordebau arbennig y plant, ac ymestyn y dysgu

A2 Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar Cymraeg plant

A3 Gwella’r wybodaeth sy’n cael ei rannu gyda’r rhieni am gynnydd yn natblygiad eu plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae ganddynt gyfleoedd da i wneud dewisiadau. Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn symud o gwmpas y gwahanol ardaloedd yn hyderus ac yn dewis adnoddau i ddefnyddio yn eu chwarae. Er enghraifft, aeth un plentyn draw at yr ardal coginio, i nôl llwy mesur i ddefnyddio yn nghegin yr ardal chwarae rôl.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n hollol gartrefol yn y cylch ac wrth eu bodd yn mynychu. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn eiddgar i chwarae. Mae unrhyw blentyn sy’n ansicr yn derbyn cymorth a geiriau cysur wrth yr ymarferwyr ac yn ymgartrefu’n gyflym. Mae mwyafrif o blant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad, gan wenu a chwerthin ac wrth gyflwyno eu cynnyrch i ymarferwyr gyda balchder. Maent yn dangos diddordeb mawr yn y gweithgareddau sydd ar gael. Mae gan y rhan fwyaf o blant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y cylch. Er enghraifft, mae ychydig o’r plant yn hyderus i rannu chwarae neu ryngweithio gydag ymwelwyr i’r gwasanaeth ac yn ymwybodol o rediad y sesiwn.

Mae rhyngweithiadau rhwng y plant ac oedolion yn dda iawn yn gyson. Mae’r plant yn hyderus i fynd at ymarferwyr i ofyn am help, gofyn cwestiwn neu geisio rhywbeth wrthynt. Maent bob tro yn cael ymateb da wrth yr ymarferwyr, ac o ganlyniad ceir cydberthnasau cryf. Mae’r plant yn cydweithredu’n dda a’r rhan fwyaf yn hapus i rannu eu teganau neu offer gydag eraill. Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, pan mae un plentyn yn gorwedd ar y carped yn dawel, aeth plentyn arall draw i wneud yn siŵr eu bod yn iawn.

Mae gan y plant sawl cyfle i gychwyn eu chwarae eu hunain, ac i ddylanwadu ar eu tasgau a gweithgareddau. Maent yn hynod annibynnol ac yn hyderus wrth ymdrin ag offer. Yn ogystal, maent yn dyfalbarhau'n aeddfed ar eu tasgau am gyfnodau priodol. Er enghraifft, mae llawer o blant yn canolbwyntio’n hir gan wneud marciau ar y llechen goleuo, golchi a sychu’r sgrin a dechrau eto. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn nôl hances yn annibynnol i sychu trwyn a’i daflu i’r bin yn syth.

Mae bron bob plentyn yn cael profiad o gyfleoedd diddorol sy'n briodol o ran oed a datblygiad ac sy'n hyrwyddo eu sgiliau. Mae’r plant yn archwilio’r ystod o ardaloedd sydd ar gael yn hyderus iawn ac hefyd yn cael amser tawel i ymlacio. Mae gan y plant rhai cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Mae plant yn helpu paratoi byrbryd iachus ar gyfer amser snac ac yn arllwys dŵr neu lefrith ar gyfer eu diodydd yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn golchi dwylo wrth gyrraedd y cylch neu cyn amser bwyd yn hollol annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y cylch yn barod iawn i ddysgu ac yn ymgartrefu'n gyflym yn yr amgylchedd groesawgar sy'n bodoli yno. Mae'r cyfnod trosglwyddo esmwyth boreol yn ychwanegu at eu gallu i ymgolli yn eu gweithgareddau yn fuan iawn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn talu sylw da wrth wrando ac yn deall cyfarwyddiadau syml wrth chwarae a rhyngweithio gydag oedolion a chyfoedion. Maent wrth eu bodd yn ymuno mewn rhigymau a chaneuon cyfarwydd ac yn gallu canolbwyntio am gyfnodau estynedig pan yn rhannu llyfr neu yn marcio'n anffurfiol ar y llechi sy'n goleuo. Mae bron pob plentyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ychydig iawn sydd yn ymateb ac yn defnyddio geiriau cyfarwydd yn naturiol wrth sgwrsio

Mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth dda o fathemateg wrth arbrofi'n hyderus gyda siapau 2 ddimensiwn i adeiladu tŷ ac wrth lwyddo i ddilyn patrwm gyda thrionglau magnetig glas, brown, glas, brown. Maent yn dangos medrau datrys problemau da wrth ddefnyddio platiau rhif lliwgar i lenwi sgwâr 100 ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd er mwyn sicrhau cywirdeb. Dangosa llawer dealltwriaeth dda o eirfa rhif gan ychwanegu blociau un ar y tro wrth adeiladu tŵr o flociau 3D. Fodd bynnag, nid ydynt yn barod eto i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth chwarae

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu i fod yn wybodus ac hyderus wrth ddefnyddio offer electroneg megis ffôn yn yr ardal chwarae rôl. Trwy archwilio ac arbrofi gyda offer electroneg bob dydd mae plant yn datblygu eu dealltwriaeth o rôl yr offer yma yn eu bywyd dyddiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trîn ffonau wrth chwarae'n greadigol gan dreulio amser yn esgus siarad gyda dad neu mam. Maent yn gallu defnyddio ffôn symudol go iawn y cylch i chwarae gêm sy'n eu hannog i wrando a chyfatebu synau'r amgylchedd gyda lluniau cyfarwydd.

Mae medrau corfforol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn fentrus wrth gerdded ar hyd offer cydbwyso ac yn trin a thrafod offer yn yr ardal allanol yn hyderus wrth archwilio yn y cegin fwd ac arbrofi gyda chwistrellau dwr. Maent yn herio eu hunain i ddatblygu sgiliau modur man trwy drin a thrafod gwrthrychau llai wrth chwarae gêm neu wrth ddefnyddio offer go iawn yn ofalus i wneud paned o de. Mae medrau bron pob un o'r plant i rannu a chydweithio yn dda iawn.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gweithio'n gyson i gadw'r plant yn ddiogel ac iach. Maent yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r cylch yn fwriadus. Mae'r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant diogelu plant, ac maent yn hyderus ynglŷn â sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Er enghraifft, maent yn cwblhau rhestr wirio risgiau yn ddyddiol ac yn tacluso'r amgylchedd yn aml i leihau peryglon. Maent yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid da. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. O ganlyniad, maent yn ymateb yn dda iawn ac yn

sensitif i anghenion y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd yn agos i siarad gyda phlant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymatebol yn gyson; maent yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Maent yn cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain yn eithriadol o dda ac yn annog ymateb a rhyngweithiad ystyrlon. Er enghraifft, mae ymarferydd yn ymateb yn bositif i gais plentyn am lyfr i ddarllen. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae plant yn rhoi cwtsh digymell i ymarferwyr neu'n eistedd yn eu côl wrth ddarllen llyfr. Maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae'r ymarferwyr yn amlwg yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da.

Mae ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu cyfleoedd chwarae da. Maent yn ymrwymedig i ddarparu ystod eang o weithgareddau yn dilyn diddordebau'r plant. Mae gan yr ymarferwyr dealltwriaeth dda o ddatblygiadau ac anghenion y plant. Maent yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn gyson. Mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am sut i gyfeirio plant ag anghenion dysgu ychwanegol at yr asiantaethau cefnogi perthnasol. Mae ymarferwyr yn hybu sgiliau annibyniaeth y plant yn bositif iawn. Er enghraifft, maent yn annog y plant i roi eu cotiau a bagiau ar y bachyn eu hunain ac yn cynnig cymorth os oes angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant i chwarae ac arbrofi gydag amrywiaeth dda o offer bywyd go iawn, y tu mewn a thu allan. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol ac maent yn sicrhau gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant, fel adeiladu gyda blociau mawr a bach, peintio, marcio a chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn cyfoethogi'r amgylchedd yn llwyddiannus trwy ddarparu adnoddau pen agored sy'n sbarduno chwilfrydedd y plant.

Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn effeithiol ac yn dangos gofal a pharch cyson tuag pob un. Maent yn ymateb yn briodol i ddiddordebau'r plant ac yn sicrhau darpariaeth sy'n cyd fynd gydag anghenion unigolion. Er enghraifft, maent yn darparu deinosoriaid yn y câs dillad i gwrdd â chwilfrydedd y plant sydd yn gwirioni ynddynt. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gant wrth arsylwi er mwyn addasu'r ddarpariaeth yn unol â diddordebau'r plant ac annog y dysgu yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio eu medrau rhifedd yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn holi'r plant yn fedrus wrth iddynt chwarae gyda siapau 2D i greu modelau 3D ac wrth gyfatebu platiau rhif lliwgar. Maent yn llwyddo i gefnogi a datblygu cysyniadau mathemategol yn effeithiol ac o ganlyniad, mae'r plant yn magu hyder i sylwi ar siâp, cymesuredd a phatrwm wrth adeiladu.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau TGCh cynnar y plant. Maent yn cefnogi'r plant yn dda i ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau ac yn yr achosion gorau, yn gofyn cwestiynau penagored er mwyn annog y plant i feddwl a datrys problemau. Er enghraifft, wrth eu hannog i feddwl am y dull gorau o lenwi potel o ddŵr.

Mae’r mwyafrif o ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn dda iawn gan gyflwyno patrymau iaith, geirfa ac ymadroddion, a chanu hwiangerddi bywiog. Maent yn cefnogi sgiliau’r plant i gyfathrebu ar lafar ac yn ddi-eriau gan ymateb yn sensitif i’w hymdrechion. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd i’r plant ailadrodd a defnyddio patrymau syml iaith er mwyn magu hyder ac annog sgwrs. Maent yn darparu amrywiaeth eang o ddeunydd darllen addas sy’n annog y plant i wneud dewisiadau. Maent yn cefnogi brwdfrydedd y plant yn dda ac yn barod i dreulio amser yn hybu dealltwriaeth a datblygu geirfa. Mae’r ymarferwyr yn cynnig ystod o gyfleoedd diddorol i’r plant farcio gan gynnwys llechen sy’n goleuo, marcio yn y toes ac ymchwilio gyda phaent.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn briodol mewn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn. Maent yn rhannu ystod helaeth o luniau ar gyfryngau cymdeithasol sy’n dangos y plant yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, glan, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, o dan do ac yn yr awyr agored. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae’r arweinwyr yn diweddaru’r asesiadau risg pwrpasol a thrylwyr yn rheolaidd ac yn eu gweithredu’n effeithiol. Mae’r arweinwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a’r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae’r lleoliad yn rhannu ardal allanol gyda’r ysgol, ac mae ganddynt ardal amgaeedig sydd yn benodol iddyn nhw. Mae’r ardal hon yn gaeedig, gyda ffens allanol yn rhwystro unrhyw blentyn rhag gadael y safle heb oedolyn. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw brofion diogelwch yr amgylchedd yn cael eu gwneud yn amserol ac yn gweithio’n effeithiol i ddelio ag unrhyw faterion sy’n codi.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol ac o ganlyniad yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y plant. Mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardal tu allan ac mae'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r plant ddysgu a chwarae yn yr awyr iach a gwella’u medrau. Mae’r ddarpariaeth yn datblygu i gynnig mynediad di-dor i’r ardal allanol gyda’r drysau’n agored trwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes, ac yn hygyrch i bawb. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r ystafell i ddarparu ardaloedd chwarae symbylus i’r plant. Mae’r ardal chwarae rôl yn cynnwys llestri go iawn, sy’n hybu ymwybyddiaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr adnoddau. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i’r plant ddefnyddio'r cyfarpar a'r adnoddau yn annibynnol. Er enghraifft, mae popeth wedi storio ar silffoedd agored er mwyn i’r plant cael gweld beth sydd ar gael.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau da i hyrwyddo chwilfrydedd plant. Mae’r plant yn mwynhau chwarae gydag adnoddau mathemategol, creadigol, cymdeithasol, byd bach ac adeiladu . Mae’r rhan fwyaf o adnoddau yn naturiol ac mae gan blant cyfle i ddefnyddio rhain yn eu chwarae. Er enghraifft, defnyddia’r plant ddail i wneud argraffiad yn y toes, neu bwmpen i beintio tu allan. Mae cysgodfan yn yr ardal allanol yn amddiffyn y plant rhag yr haul a’r glaw. Mae esgidiau a dillad addas ar gael ar gyfer tywydd anffafriol, sy’n caniatáu i blant chwarae tu allan, beth bynnag yw'r

tywydd. Mae yna amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy’n briodol o ran oedran y plant ac o ansawdd da. O ganlyniad, mae'n galluogi’r plant i wneud dewisiadau synhwyrol wrth chwarae a dysgu'n annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref sy’n seiliedig ar sicrhau hapusrwydd a diogelwch bob plentyn o fewn awyrgylch llawen a chartrefol. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda rhieni, ac asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i gynnig gofal a chymorth o safon uchel. Er enghraifft, bu’r tîm yn brysur yn ddiweddar yn adnewyddu ac aildrefnu’r amgylchedd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig darpariaeth o’r safon uchaf i’r plant. Maent yn darparu arweiniad a chefnogaeth fuddiol i aelodau newydd o’r staff ac yn dangos parch at eu cyfraniadau.

Mae arweinwyr y lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian grantiau i wella’r amgylchedd ddysgu ac i gynnig profiadau buddiol i’r plant. Maent wedi cydweithio fel tîm rheoli i sicrhau grantiau er mwyn gwella’r adnoddau dysgu tu fewn ac yn yr ardal allanol. Maent wedi defnyddio’r arian yma yn fwriadus i brynu adnoddau sydd wedi arwain at ddarparu cyfleoedd cyffrous i'r plant i ymchwilio ac arbrofi. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi mewn cysgod defnyddiol a chegin fwd yn yr ardal allanol sydd wedi trawsnewid profiadau dysgu ac wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau corfforol y plant. Maent hefyd wedi newid wyneb y llawr mewnol sydd wedi sicrhau y gallu i greu amrywiaeth eang o gyfleoedd i blant arbrofi ac ymchwilio.

Mae gan arweinwyr drefniadau diogonol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd gwella. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif iawn i’w hanghenion dyddiol. Mae’r ymarferwyr yn deall yr angen i adael y plant i ddilyn eu trywydd unigol.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu plant. Mae'r broses rheoli perfformiad wedi sefydlu’n gadarn ac yn annog ymarferwyr i fynychu ystod o hyfforddiant ac i gymhwyso eu dysgu. Cynhelir goruchwyliaeth ac arfarniadau pwrpasol yn rheolaidd.

Mae aelodau’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i waith y lleoliad ac yn ymateb yn briodol i awgrymiadau’r person â gofal. Mae’r bartneriaeth agored ac onest sy’n bodoli rhwng y lleoliad a’r asianteithiau sy’n cefnogi yn sicrhau perthynas waith hynod o effeithiol. Mae gan y pwyllgor rheoli drefniadau effeithiol i fonitro gwaith y lleoliad.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth dda iawn gyda rhieni. Maent yn buddsoddi llawer o amser i ddod i adnabod y plant cyn eu bod yn dechrau ac yn defnyddio’r wybodaeth am brofiadau blaenorol plant yn effeithiol er mwyn hwyluso’r broses o ymgartrefi yn y lleoliad. Mae’r bartneriaeth agos sy’n bodoli rhwng y lleoliad a'r dair ysgol gynradd sy’n derbyn y plant hefyd yn cyfrannu at drosglwyddo esmwyth. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am ei gwasanaeth ac i gynnig syniadau ar gyfer cwblhau gweithgareddau cartref. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sy’n cael ei rannu am ddatblygiad uniongyrchol plant gyda’i rhieni yn ystod y flwyddyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2022